Pasg 2013 -  Rhifyn 7

Newyddion Ysgol Bro Ddyfi,
Machynlleth

# Ein Bro



LUMEN NOBIS SIT SCIENTIA

Ysgol Bro Ddyfi

# Gair gan y Pennaeth

AAnnwyl  Riant / Ofalwr

Er mai tymor byr yw tymor y Gwanwyn mae wedi bod yn un prysur iawn gydag arholiadau allanol ym mis Ionawr, arholiadau llafar, asesiadau dan reolaeth a llawer iawn o waith cwrs yn cael ei gwblhau.

Os ydy eich plentyn ym mlynyddoedd 10 i 13 fe ddylai fod wedi  creu amserlen adolygu ac wedi dechrau adolygu. Mae'r arholiad cyntaf ddydd Llun 13 Mai, sydd ond chwe wythnos i ffwrdd. Fel rhieni mae gennych rôl bwysig i'w helpu drwy eu hannog i weithio a cheisio sicrhau awyrgylch dawel iddynt  gael gwneud y gwaith (heb deledu a phethau eraill a all dynnu sylw). Yn ddelfrydol, dylid adolygu mewn cyfres: adolygu'r un gwaith am dair neu bedair noson yn olynol. Mae ystadegau'n dangos bod pobl yn cofio tua 80% o'r gwaith ymhen pedair wythnos ar ôl adolygu am gyfres o nosweithiau. Ar y llaw arall, os yw eich plentyn ddim ond yn adolygu testun unwaith, mae yn debygol o fod wedi anghofio 90% o'r gwaith ymhen pedair wythnos.




**Cynhelir nifer o sesiynau adolygu yn yr ysgol dros y Pasg i blant Blwyddyn 10 – 13. Dylech fod wedi derbyn y manylion trwy lythyr. Mae'r manylion hefyd ar wefan yr ysgol.**

Yn 2012 roedd ein can-ran presenoldeb yn 94.2%  oedd yn ein rhoi yn Band 2, o ran presenoldeb. Ar hyn o bryd mae ein presenoldeb yn 92.8% sydd yn ein rhoi yn Band 3, o ran presenoldeb. Mae'n bwysig eich bod fel rhieni yn gwneud popeth sy'n bosib i sicrhau bod eich plant yn mynychu'r ysgol bob dydd. **Cofiwch fod pob dydd yn cyfrif ac nid oes amser da i gymryd gwyliau yn ystod y tymor.**

Cafwyd nifer o lwyddiannau yn ystod y tymor gyda Blwyddyn 8 yn cydweithio gyda'r Gymdeithas Genedlaethol i Warchod Adar (RSPB) i ddylunio a chreu gwaith graffeg i guddfan newydd yn y ganolfan.  Enillodd Ira Masko gystadleuaeth Celf Cymdeithas Maldwyn ac enillodd Lois Jones y wobr gyntaf a Hanna Eiddon Lewis yr ail wobr am ysgrifennu stori ar y testun Un Nos Ola Leuad.  Rhannodd Gwenno Griffiths a Lisa Jones y wobr gyntaf yn Eisteddfod Llanegryn yn y gystadleuaeth ysgrifennu rhyddiaith o dan 25 oed ac roedd yr ysgol yn llwyddiannus iawn eto yn Eisteddfod yr Urdd gyda nifer fawr yn edrych ymlaen at gystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Sir Benfro. Hoffwn longyfarch pawb am gystadlu a diolch i'r staff wnaeth eu hyfforddi.

Cynhaliwyd noson Gweld Sêr ym Mis Chwefror lle cafodd bawb gyfle i weld tair ffilm a gynhyrchwyd gan Blwyddyn 9 yn ystod yr Wythnos Gweithgareddau llynedd. Roedd y ffilmiau yn wych a'r noson wobrwyo yn ddifyr a llwyddiannus iawn. Hoffwn ddiolch yn fawr i Mr Nic Ros, Mr Alex Roberts a Mr Huw Davies  am eu gwaith caled. Yn olaf, carwn ddiolch i'r staff a'r plant am eu gwaith caled yn ystod y flwyddyn ac i chi rieni am eich cefnogaeth.

Pasg hapus i chi i gyd.

Dafydd M B Jones



# A word from the Headteacher

*Dear Parent / Carer*

*Although this term has been short, it has been a very busy one for pupils and staff. External examinations were held in January; whilst oral examinations, controlled assignments and a massive amount of coursework have been undertaken during the term.*

*If your child is in Years 10 - 13, he/she should have created a revision timetable and started revising. The first examination will be held on Monday 13 May, which is in six weeks. As parents you have a very important role, you can help your children to revise by encouraging them and ensuring they have a quiet area to work (away from the television and other distractions). Revision works well when it's done in a series: where the child revises the same topic for a series of three or four consecutive nights. Statistics show that people, in four weeks' time, remember around 80% of the work revised in this way. However 90% of the work will be forgotten if the work is only revised for one night.*




***Many revision sessions will be held at the school during the Easter break for years 10 – 13. You should have received information about revision sessions by post. Details are also to be found on the school website.***

*In 2012 our attendance percentage was 94.2% which placed us in Band 2 for attendance. The present attendance percentage is 92.8% which places the school in Band 3 for attendance. It is important that as parents you do everything possible to ensure your child attends school every day.* ***Remember that every day counts and there is no good time to take holidays during school term.***

*There have been many successes during the term, with Year 8 working in partnership with the RSPB to design and create graphics work for a new hide at the centre. Era Masko won the Art prize at the Montgomeryshire Society awards and Lois Jones won first prize for writing a story titled One Moonlit Night. Hanna Eiddon Lewis won second prize. Gwenno Griffiths and Lisa Jones shared first prize for prose writing in Eisteddfod Llanegryn and the school was very successful again this year in the Urdd Eisteddfod with many pupils looking forward going to competing at the national Eisteddfod in Pembrokeshire. I would like to thank everyone who competed and also the staff who tutored them.*

*In February the award ceremony, Gweld Sêr (Seeing Stars), was held. Three films, produced by Year 9 during the Activities Week last year, were screened. The films were excellent and the evening itself a great success. I'd like to thank Mr Nic Ros, Mr Alex Roberts and Mr Huw Davies for their hard work.*
*I would like to take this opportunity to thank the staff and the pupils for their hard work during the year and also you, the parents, for your support.*



*I hope you all have a happy Easter.*

*Dafydd M B Jones*



# Pobi dros Bobath.

Ddydd Gwener, Mawrth 1af, trefnwyd arwerthiant gacennau yn yr ystafell dechnoleg er mwyn codi arian tuag at Ganolfan Therapi Plant Bobath Cymru. Un ffordd o godi arian oedd hyn gan fod angen £900,000 bob blwyddyn i gadw'r ganolfan ar agor. Diolch yn fawr iawn i'r holl staff a fu mor hael gyda'u hamser a'u hamynedd yn coginio'r holl gacennau cri a bara brith. Diolch hefyd i Elin Williams a Marged Jones o'r chweched dosbarth a'r staff fu'n helpu cadw trefn ar y prynu a'r gwerthu i ddegau o gwsmeriaid llwglyd. Llwyddwyd i gasglu dros £75!

Friday 1st of March there was a cake sale in the technology department to raise money for the Bobath Children's Therapy Centre Wales. One of the ways to raise the £900,000 each year to keep the centre open was this cake sale. Thank you to all the staff who were very generous with their time in baking all of the cakes. Thank you also to Elin Williams and Marged Jones from the sixth form who have been helping to organise the sale to our hungry customers. The sale raised a brilliant £75!















Mae'n bosibl lawrl-wytho'r prosbectws oddi ar ein gwefan:
**www.broddyfi.co.uk**

*You can download the prospectus from our website.*
***www.broddyfi.co.uk***





# Yr Adran Ddaearyddiaeth

Helo fy enw i yw Finn. Roeddwn i'n un o'r 26 a aeth ar daith i Wlad yr Ia ym mis Chwefror eleni. Trefnwyd y daith gan Discover The World ac roedden nhw wedi gwneud gwaith arbennig o drefnu law yn llaw â Mrs Eirian Davies. I gychwyn roeddem yn hedfan o faes awyr Heathrow yr holl ffordd i Reykjavik. Wedyn teithion ni i'r Blue Lagoon— dyma un o'r llefydd gorau i mi ymweld ag o erioed! Dyma bwll enfawr sydd yn cyrraedd tymheredd o 30-40°C gyda lafa du yn ei amgylchynnu. Mae hyn yn gwneud y Blue Lagoon yn lle unigryw sydd yn fan perffaith i ymlacio ar ôl siwrne faith. Wedyn teithion ni i'r Gwesty Cabin am gwsg er mwyn bod yn barod at ddigwyddiadau'r diwrnod canlynol.

Ar yr ail ddiwrnod, teithiom drwy Reykjavik i weld rhai o'r golygfeydd fel y porthladd, y llyn ac eglwys Hallgrimskirkja. Wedyn aethon ni i weld rhaeadr o'r enw Seljalandsfoss sydd yn llifo dros glogwyni basalt. Roedd modd i ni gerdded tu ôl y rhaeadr yma ac roedd o'n anhygoel bod tu ôl i rywbeth mor fawr - agoriad llygad! Wedyn fe welsom y llosgfynydd cwsg Stori-Dimon. Roedd hwn yn rhywbeth nad anghofiaf mohono byth oherwydd bod modd gweld mor bell. I orffen yr ail ddiwrnod aethom i ymweld â'r ail raeadr o'r enw Skogafoss - tirffurf anhygoel arall.

Yn ystod ein trydydd diwrnod aethom i ymweld â Vik. Dyma dref arfordirol gyda tywod du o amgylch yr arfordir - roedd yma olygfeydd anhygoel o'r pentyrrau basalt wrth ymyl y môr. Wrth ymyl hwnnw roedd Dyrholaey— mae'r enw'n golygu 'drws bryn yr ynys' efo'r creigiau naturiol sydd yn 120m o uchder. Mae'n debyg i'r pentir yma gael ei ffurfio gan ffrwydiad danfor. Mae'r lle yn enwog am ei fywyd adar diddorol fel y pâl. Yn anffodus doedd dim cyfle i weld yr un pâl oherwydd mae nhw'n anifeiliad yr haf. Hveragerdi oedd y dref nesaf a welsom - mae'r dref hon yn llawn gweithgareddau geothermal. Mae o'n ddiddorol iawn cael dysgu am yr hanes yma. Aethom hefyd i'r ffynhonnau poeth sydd wedi bod yna ers y daeargryn yn 2008.

Ar y pedwerydd diwrnod, aethom i ddringo'r crater folcanig o'r enw Kerid sydd yn dirwedd hardd iawn eto. Credir iddo fod yno yn sgil ffrwydrad folcanig enfawr. Yn dilyn hyn, aethom i weld rhaeadr Gulfoss; dyma'r rhaeadr enwocaf un yng Ngwlad yr Ia - a does dim rhaid gofyn pam. Mae o'n enfawr ac yn gret ym mhob ffordd efo disgyniad o 33m wedyn plymiad i geunant sy'n filltir o hyd. Wedyn, aethom i ymweld â Geysir, y ffynhonnau poeth. Bob 5-7munud mae'r ffynhonnau yma yn ffrwydro ac yn ymestyn i 30m o uchder. I orffen y diwrnod yma, aethom ar daith bws i weld y *Northern Lights.* Goleuwyd yr awyr mewn gwyrdd llachar ac roedd y profiad hwn yn sicr yn glo perffaith i daith anhygoel.

I orffen y daith, ar y pumed diwrnod, aethom i weld y pontydd sy'n ymestyn rhwng y cyfandiroedd. Roedd yr hanes yn ddiddorol iawn ac unwaith eto roedd y tirlun yn berffaith.

Bu'r daith adref yn gyfle gwych i ni ail fyw rhai o brofiadau'r daith fythgofiadwy.





# PA MOR RIFOG YDYCH CHI?

Ysgol Bro Ddyfi

twitter

A fedrwch chi ddatrys problem rhif yr wythnos? Bob wythnos mae yna gwestiwn rhif gwahanol ar Twitter yr ysgol (@broddyfi). Beth am roi cynnig arni? Bydd gwobr ar ddiwedd pob tymor i'r disgybl sydd yn ateb y mwyaf o'r cwestiynau yn gywir.

*Can you solve the numeracy problem of the week? Each week there is a different question to solve on the schools Twitter (@broddyfi). What about giving it a go? There will be a prize for the pupil that answer the most questions correctly at the end of each term.*

twitter

# HOW NUMERATE ARE YOU?





# The Geography Department

Hi, my name is Robin. This February we went to Iceland where we visited many different places. On the first day there we arrived at Keflavik airport and caught a bus to go swimming in a geothermally-heated outdoor pool called The Blue Lagoon. Later on we checked in to the hotel in Reykjavik. We then went to a restaurant in the city centre.

On the second day we left the hotel at 9:00a.m and got on the bus with a tour guide. We later went sightseeing around Reykjavik and looked at local landmarks such as the Old Port that is globally famous for its fishing and whaling, and a massive lake in the city centre that was fully frozen over with people walking over it. Later on we went to the volcanic town of Hveragerdi that is famous for its volcanically heated greenhouses. Later that day we climbed the non-active volcano Stori-Dimon and had a great view of the flood plains and the deposits from the melting glaciers. While we were in the same area we went to see the massive 60m waterfall Skogafoss. We then went to a hotel in a rural village called Brekkur and to see some coastal landforms.

On the third day there we set off from the hotel at 9:00a.m to a town called Vik that is built on the south most point of Iceland. After going to Vik we went to a beach with black volcanic sand called Reynisherfi. At midday we went to a farmhouse at the bottom of Eyjafjallajokull with a home cinema where we watched a documentary about the eruption of 2010. Later that day we went back to Reykjavik to another outdoor swimming pool called Laugardalslaug, similar to The Blue Lagoon. After we went back to the hotel for the night.

On the fourth day we left the hotel and went to see Hellisheidi Geothermal Power Station from the outside. After seeing the power station we went to see a volcano with a massive crater in it, called Kerid. The next landmark we went to see was Gullfoss which is a double waterfall that flows off down a canyon. We then went to a geyser called Geysir that spouts water up to 30m every 5-7 minutes. Later that night we went to see the Northern Lights.

On the last day we went to see the hot spring water storage plant before we returned to the airport.





# Pêl Droed - Football



On Saturday the 16th of March, The mighty Machynlleth Hurricanes U14 beat Bow Street Piod 8-1! It was a very easy game but fair play Piod tried their best but they couldn't beat us. Juno started it off by scoring by running through the defence and slotting it in the corner of the net. Then Ryan got the second goal by placing it past the goalie with his left foot. Then Juno scored 2 in about 5 minutes by running through the already tired defence, then half time came and it was 4-0 and the manager (Geraint) had a word with us and we started off with the second half and nearly straight away with Alex scoring a cracking of a goal by chesting it and volleying it in the back of the net leaving the goalie hopeless. Not long after Alex scored another brilliant goal by lopping the goalie to make it 6-0. Then Piod went on the attack getting the corner and getting a lucky goal but it was offside but the goal still stood and it was now 6-1 but not long after that Alex went on the attack then passing to Jake and he slotted it in the open goal (Sweaty Goal) and then to finish off the match Alex scored his hat-trick with a nice finish to make it 8-1 and the whistle blew for the last time and the Hurricanes won8-1!

By Ben and Ryan

# Rygbi 6 gwlad - 6 Nations Rugby

Everyone was looking forward to the beginning of the 6 Nations 2013 tournament which would last for a month and a bit. Wales and Ireland had the first match,and Ireland showed what they could do to win the match 30-22. England jumped to top of the league by winning against Scotland 38-18.

With a lot of hard work Wales won every other game they had but with England they had to win by 8 points or more and they succeeded by winning 30-3. This was the and there best win of the whole tournament due to the points difference. France came last with 1 win, 1 draw and lost 3 they beat Scotland and drew with Ireland.

Wales was so proud when they had won the 2013 Six Nations—Da iawn chi.

By Dean and Reuben



| Pos | Team | P | W | D | L | F | A | PD | TF | Pts |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | (2) Wales | 5 | 4 | 0 | 1 | 122 | 66 | 56 | 9 | 8 |
| 2 | (1) England | 5 | 4 | 0 | 1 | 94 | 78 | 16 | 5 | 8 |
| 3 | (3) Scotland | 5 | 2 | 0 | 3 | 98 | 107 | -9 | 7 | 4 |
| 4 | (5) Italy | 5 | 2 | 0 | 3 | 75 | 111 | -36 | 5 | 4 |
| 5 | (4) Ireland | 5 | 1 | 1 | 3 | 72 | 81 | -9 | 5 | 3 |
| 6 | (6) France | 5 | 1 | 1 | 3 | 73 | 91 | -18 | 6 | 3 |

# Quizlet y ffordd orau i adolygu

# Quizlet the best way to revise

**Defnyddiwch raglan *Quizlet* i wneud cwis ar byncia‌u gwahanol i ddysgu geirfa, ieithoedd ac amryw o wahanol bynciau!**

Use Quizlet to make quizzes about deferent subjects, from terms, languages and all subjects.

## www.Quizlet.com



# Dyfi Sasquatch News

During the Easter Holidays 40 members of Dyfi Sasquatch bike club are taking to the boards at Wales National Velodrome following in the foot-steps of Beccy James and Geraint Thomas. The trip is being organised by Nikki Taylor and Stefan Price. The track time is being funded by Welsh cycling and the trip is costing £25 including the bus and bike hire. The group will be leaving Mach at 6am and returning at 6pm.

If you would like to have a go at cross country racing try:-

| |
|---|
| The North Wales Go Race Series 2013 |
| Racing for under 16's to under 8's |
| plus open race for over 16's |
| When and where: |
| Race 1: 24/02/13, Coed y Brenin, LL40 2HR (Hosted by CyB Dragons) |
| Race 2: 16/03/13, Nant BH, LL27 0JB (Hosted by CBM Dyffryn Conwy) |
| Race 3: 14/04/13, Tree Tops Adventure, Betws y Coed, LL24 |
| Race 4: 09/06/13, Alyn Waters, Llay, LL11 4AG |
| Race 5: 13/07/13, Llanfyllin, SY22 5BJ (Hosted by Llanfyllin |
| Race 6: 15/09/13, Coed y Brenin, LL40 2HR (Hosted by CyB Dragons) |
| Race 7: 19/10/13, Glan y Morfa, LL18 2AD |
| Race 8: 09/11/13, Nant BH, LL27 0JB (Hosted by CBM Dyffryn Conwy) |
| Followed by the presentation of the Series Awards. |
| Entry fee per race: £3.00 for BC Members, £5.00 for non BC |
| £4.00 for over 16's |
| You can join British Cycling on the day if you wish. |
| For more information contact: Mike Tong |
| Tel: 01690 710514 |
| E-mail: mike.tong@welshcycling.co.uk |
| www.welshcycling.co.uk Each race also includes a skills test so give it a try. If you are interested in improving you mountain Bike skills Welsh cycling run Skills academies in the holidays sign up as soon as you can. |

**MTB Skills Academy Session Details 2013 Run by Welsh Cycling Performance MTB Coach Scott Bugden, Skills Academy Sessions focus on Cross Country MTB racing skills but will help you become a better rider whatever your discipline-including road and track!**

The day is split into two sessions: the morning sessions from 10am-12noon are open to any rider aged 10-16 and focus on skills and short race efforts-riders are asked to bring flat pedals for this part of the session in order to develop good technique. The younger riders (Under-12) are finished for the day but not so for the older riders. Following a short break for some food and a rest the over 12's continue for another 2hours, finishing at around 2:30pm. The afternoon session normally consists of a ride to a technically challenging area or trail that riders can then session before riding back to the base.

**Dates:**

There are sessions planned in North and South Wales for each week of the School holidays:

*North Wales: All Thursdays*

- 28th March Nant BH
- 04th April Nant BH
- 30th May Coed y Brenin
- 25th July Nant BH
- 1st August Nant BH
- 8th August Coed y Brenin
- 15th August Nant BH
- 22nd August Coed y Brenin
- 29th August Nant BH
- 31st October Nant BH



*South Wales: All Tuesdays*

- 26th March Sirhowy Valley
- 2nd April Margam Park
- 9th April Brechfa
- 28th May Margam Park
- 23rd July Sirhowy Valley
- 30th July Margam Park
- 6th August Sirhowy Valley
- 13th August Margam Park
- 20th August Sirhowy Valley
- 27th August Margam Park
- 29th October Margam Park

**Venues:**

Venues are now provisionally booked as above. Below is a brief description of each venue so that riders know what to expect:

**North:**

*Nant BH* (near Betws Y Coed). Nant BH is an Outdoor Education Centre with a purpose built skills course. It is also in the middle of the Marin Trail and has a classroom area, showers and toilets-all in all, a fantastic venue.

*Coed y Brenin* (near Dolgellau). Another great North Wales venue, Coed y Brenin has a great natural area that we use for these sessions. Away from the main public trails, it isn't used by any other riders so there is plenty of scope for us to choose different paths/trails and challenges.

**South:**

*Sirhowy Valley*. Sirhowy Valley is just north of Newport and is a much more natural venue-there is a grass area for the morning skills session and some technical natural trails for the afternoon. Potentially very slippery if it is wet so bring grippy tyres if you have a choice (this applies more for the afternoon session than the morning).

*Margam Park*. Margam Park is a well-known venue having hosted National races for many years. There is a good mix of trails and technical challenges with some steep climbs/descents.

*Brechfa*. In West Wales, Brechfa and Abergorlech are two great trail centres that are also really quiet. We will only be running a couple of sessions here throughout the year because of the location but it is well worth the trip with some great riding available. There is also a range of trails available for parents if you want to kill some time.

If you know of a venue that might be suitable and isn't listed above, please let me know.

**Cost:**
Sessions are free but you will need to book a place in advance by contacting Scott Bugden- scott.bugden@welshcycling.co.uk

# Home Access Plus+

## Access your school from Home

Mae modd i chi nawr weld eich ffeiliau Ysgol pan fyddwch chi gartref. Ysgol Bro Ddyfi yw'r unig ysgol yng Nghanolbarth a Gogledd Cymru sydd yn defnyddio'r rhaglen yma. Mae ar gael i bob disgybl yn yr ysgol.

## Sut I ddefnyddio Home Access Plus+

*It is now possible for you to see your school computer files at home. Ysgol Bro Ddyfi is the only school in Mid and North Wales that offers this service. It is possible for all pupils to access their files from home.*

1. Yn gyntaf mae angen i chi fynd i wefan Ysgol Bro Ddyfi. www.broddyfi.co.uk. Yma mae angen clicio'r linc sydd ar ochr dde'r sgrin.

   *First you need to go to the school website www.broddyfi.co.uk and click on the blue link on the right hand side . See the picture on the right.*







2. Mi fydd blwch nawr yn ymddangos ar y sgrin fel yr un ar y chwith. Mi fydd angen i chi nawr lenwi'r bylchau gan roi eich enw a chyfrinair eich cyfrif ysgol a gwasgu ok.

*Next a box will appear on the screen like the one on the left. You will need to fill in the form with your school account details and click ok.*

3. Nawr mae'n bosib i chi glicio ar ***Browse My School Computer*** lle bydd hi'n bosib i chi weld eich ffolderi a ffeiliau. Yno cewch ddewis rhwng eich ffolder chi, y ffolder ***Curriculum Pool*** neu ffolder y ***shared drive***.




*Now you can click on **Browse My School Computer** where it will be possible for you to access you files. Then you will be able to choose from your folder, the curriculum pool or the shared drive to download files.*




3. I lawr lwytho dogfen o'ch dewis mae angen clicio arni ddwywaith ac mi fydd hi'n bosib i chi ei gweld a'i newid.

*To download a document of your choice you can just click on it and it will be there for you to see and edit.*




3. Os am roi'r ddogfen nôl ar ***Home Access Plus*** er mwyn ei gweld ar system yr ysgol cliciwch gyda'ch bys de a dewiswch ***upload***.

*To upload your file back to the school system you must right click in the folder you wish to include the document and click **upload**.*

# Dyddiadau Pwysig
# Important Dates

| Beth / *What?* | Pryd/*When?* |
|---|---|
| **29/3/13 – 12/4/13** | **Gwyliau'r Pasg / Easter Holidays** |
| **15/4/13** | **Adroddiadau llawn Bl 10 / Yr 10 Full Reports** |
| **22/4/13** | **Arholiadau Mewnol Bl 9 / Yr 9 Internal Examinations** |
| **22/4/13** | **Noson Rieni Bl. 7 / Yr 7 Parents Evening** |
| **29/4/13** | **Arholiadau Mewnol Bl 7 ac 8 / Yr 7 and 8 Internal Examinations** |
| **13/5/13 – 21/6/13** | **Arholiadau Allanol Lefel A a TGAU / GCE and GCSE External Examinations** |
| **27 – 31/5/13** | **Hanner Tymor / Half Term** |
| **24/6/13** | **Adroddiadau Llawn Bl 7 ac 8 / Yr 7 and 8 Full Reports** |
| **08/7/13** | **Wythnos Gweithgareddau / Activities Week<br>Profiad Gwaith Bl 10 a 12 / Yr 10 & 12 Work Experience** |
| **08/7/13** | **Adroddiadau diwedd Cyfnod Allweddol Bl 9 / Yr 9 End of Key Stage Reports** |






# RED NOSE DAY

Yn dilyn yr hwyl ym Mro Ddyfi yn ystod diwrnod y trwynau coch, aeth nifer o'n disgyblion ni draw i'r plas i flasu a chymryd rhan yn y gweithgareddau yno hefyd. Diwrnod llwyddiannus iawn at achos arbennig o dda. Diolch i bawb am eu rhoddion.

*Following on from the Red nose red day fun at school on Friday Ysgol Bro Ddyfi pupils were well represented in the Red nose day bash held at" Y Plas" Machynlleth on Friday evening.*

*Firstly the Tangerine choir performed some pirate type sea ditties*

*While their choir master had her pigtails hacked off to make wigs for cancer sufferers.*





Next was an amusing sketch by Kiera and Heulwen called" MONKEYS ON MARS"





Next was an extract from a pantomime By Mach Panto group featuring little red riding hood, three little pigs and Harry Potter.





Followed by a very brave Stefan Price who had a very public appointment with a beautician and came out of the concert with much smoother and less hairy legs than he went in with. Well done Stefan It is amazing what people will do for charity.

There were many more acts including Spar v Co-op sumo wrestling and various local musicians providing some toe tapping fun. Well done to anybody who took part and anyone that donated to this worthy cause it was a fantastic night showcasing Machynlleth talent.

# Pêl Droed i ferched!



On Tuesday 12th March at 6.30 pm our year 7 girls took on a team of years 6-9 girls from Dolgellau. It was the first official outing of our year 7 girls and they did us proud there were 9 members of the Bro Ddyfi team Lois, Amy, Robyn, Maisie, Abi, Aur, Shannon, Emma and Ellie.

The game was played over 4 quarter's refereed By Stefan Price and supported by parents and friends of the girls.
The final score was 5-2 to Dolgellau but the score did not do justice to how close the game was, the girls were a bit nervous to start with and the first 2 quarters were a little shaky but the girls rallied round and despite playing against some year 9 girls opposition, won the second 2 quarters with skill and determination.

The girls are coached by James Ingelston and Kieran Jones with a little help from Stefan Price and Nikki Taylor. We are now looking forward to the Urdd tournament in May where Bro Ddyfi are taking 2 teams of girls one from years 7&8 and one from year 9&10.
So watch this space If they play with the same flare as they did against Dolgellau we should do really well.

Anybody interested in joining the girls team practices are Monday and Thursday 3.30- 4.30.



## Y Chweched Dosbarth

Braf yw cael nodi bod nifer uchel o ddisgyblion Blwyddyn 11 yn bwriadu dychwelyd i'r Chweched Dosbarth yma yn Ysgol Bro Ddyfi. Mae rhai disgyblion o ysgolion cyfagos hefyd yn bwriadu dod yma i astudio yn y Chweched Dosbarth. Edrychwn ymlaen i groesawu pob un ohonyn nhw.

Ers dymchwel y wal yn y llyfrgell mae'n deg i ddweud mai'r llyfrgell erbyn hyn yw un o gorneli brafiaf yr Ysgol. Prynwyd dwy soffa i'w gosod yno ac mae holl naws y lle yn denu pobl at ddarllen. Yn ogystal â hyn gosodwyd gliniaduron yn y 'stafell gefn i'w defnyddio gan fyfyrwyr y Chweched Dosbarth yn ystod eu cyfnodau Astudio Annibynnol. Braf yw gweld cystal defnydd yn cael ei wneud o'r gofod.



## Sixth Form

*It is good to note that a high proportion of the current Year 11 pupils intend to continue their education here at Ysgol Bro Ddyfi. A significant number of pupils from nearby schools have also shown an interest in studying here. Every one of them is welcome.*

*Since knocking a wall down in the library, it's fair to say the library is probably by now one of the most pleasant corners in the school. The atmosphere is conducive to study; research and reading. Laptop computers with access to the school's network have been placed in the small room at the back and are used by Sixth Form Students during their independent study periods. It's good to see such good use of space being made.*

.






# Rhifedd / Numeracy

**Beth yw Rhifedd a pham bod Rhifedd yn bwysig?**

Rhifedd yw gwneud defnydd o’r hyn a ddysgir mewn gwersi mathemateg mewn bywyd bob dydd. Mae bod yn rhifog yn bwysig iawn i fod yn llwyddiannus mewn llawer o swyddi gwahanol er enghraifft cogydd i allu pwyso'r cynhwysion yn gywir, gweithiwr siop i allu rhoi'r newid cywir i gwsmer neu athro/athrawes i amseru tasgau o fewn gwers.

**Cwestiwn Rhif yr wythnos ar Twitter**

I helpu datblygu sgiliau rhif disgyblion rydym wedi dechrau cyflwyno cwestiynau rhif yr wythnos ar Twitter yr ysgol (@brodddyfi). Rydym yn ceisio annog pob disgybl i gymryd rhan i ateb cwestiwn rhif yr wythnos ar Twitter. Bydd gwobr i’r disgybl sydd yn ateb y mwyafrif o’r cwestiynau yn gywir ar ddiwedd pob tymor.

**Profion Rhifedd a Llythrennedd**

Mis Mai yma mae’r Llywodraeth Cenedlaethol Cymru yn lansio profion statudol Rhifedd a Llythrennedd i ddisgyblion blynyddoedd 7, 8 a 9. Mae’r profion yn cyd-fynd ag amcanion y llywodraeth sef codi safonau rhifedd a llythrennedd mewn ysgolion.

Un prawf rhifedd fydd yna'r flwyddyn yma sef trefniadol rhif gyda phrawf ymresymu rhif yn cael ei gyflwyno'r flwyddyn nesaf. Hyd y prawf rhif trefniadol yw 30 munud ac mae’r prawf llythrennedd yn awr. Fel ysgol mi fydden yn helpu i baratoi disgyblion tuag at y profion drwy gynnal ffug brofion ynghyd â gweithgareddau rhif sydd yn digwydd yn yr ysgol yn barod megis bore rhif a chwestiwn rhif yr wythnos.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Mr Tegid Owen, Cydlynydd Rhifedd yr ysgol.

**Cwestiwn Rhif**

Rhif lwcus Mari yw 7. Dywedodd Rhiannon petai 10 yn cael ei adio at ei rhif lwcus hi a bod y canlyniad yn cael ei rannu â 2 y cewch chi rif Mari. Beth yw rhif lwcus Rhiannon?

Ateb:



**What is Numeracy and why is it important?**

Numeracy is the use of what is learnt in mathematics lessons in day to day life. Being numerate is important to be successful in many different jobs such as a chef to be able to weigh the correct amount of ingredients, a shop assistant to be able to give the correct change to customers or a teacher to be able to time tasks within a lesson.

**Numeracy Question of the week on Twitter**

To help develop pupils' numeracy skills we have introduced a numeracy question of the week on the school's Twitter (@broddyfi). We are trying to encourage every student to take part in the numeracy question of the week on Twitter. There will be a prize for the pupil that correctly answers the most questions at the end of each term.

**Numeracy and Literacy Tests**

This May the Welsh Assembly Government is launching their statutory Numeracy and Literacy tests for year 7, 8 and 9 pupils. The tests corresponds to the governments objectives which is to raise numeracy and literacy standards in schools. This year there will be one numeracy test the numeracy procedural test with the numeracy reasoning test being introduced next year. The duration of the numeracy procedural test is 30 minutes and the literacy test and hour. As a school we will be helping pupils prepare for the tests by conducting mock tests along with the numeracy activities that already exist such as the numeracy morning and the numeracy question of the week.

For more information, contact Mr Tegid Owen, Bro Ddyfi's Numeracy Coordinator.

**<u>Numeracy Question</u>**

Mari's lucky number is 7. Rhiannon said that if 10 was added to hers and the result divided by 2 you would get Mari's. What is Rhiannon's lucky number?

Answer:

# Radio Bro Ddyfi yn 1 oed!

Mae hi'n 1 oed yn barod! O'r caneuon boreol sy'n deffro'r disgyblion a'u cael yn barod at waith i'r sioeau arbennig megis sioe Y Fflam Olympaidd a'r sioe diwedd blwyddyn 11 arbennig, mae hi wedi bod yn andros o flwyddyn ddiddorol!

Agorwyd y sianel yn swyddogol gan Hywel Gwynfryn ac fe gynhaliwyd cyfweliad gyda rhai o'r disgyblion a gafodd ei ddarlledu ar BBC Radio Cymru.

Mae Radio Bro Ddyfi wedi bod yn llwyddianus wrth gael y disgyblion i ddatblygu eu sgiliau TGCh wrth addasu a chreu eu rhagleni eu hunain ar gyfer eu sioeau sydd yn cael eu darlledu yn fyw eleni yn ystod amser egwyl ac amser cinio.

Yn wreiddiol, roedd y rhaglenni yn cael eu recordio o flaen llaw ond dros y misoedd diwethaf, mae'r disgyblion wedi cael y cyfle i ddarlledu'n fyw i'r ysgol i gyd!

Nid ar gyfer darlledu rhaglenni yn ystod y dydd yn unig y defnyddir Radio Bro Ddyfi. Fe'i defnyddir hefyd i recordio llafar adran Y Gymraeg a'r adran Ffrangeg. Mae'r radio yn rhan ganolog o gynllun yr ysgol i wella safonau llythrennedd.

Mae'r adran TGCh a'r adran Cyfryngau wedi defnyddio'r radio er mwyn creu rhaglenni radio am eu prosiectau yn y pwnc. Mae rhai enghreifftiau o'r sioeau ar gael i'w lawrlwytho o www.radio.broddyfi.co.uk

Yn ystod wythnos gweithgareddau lle mae blwyddyn 9 yn gweithio ar brosiect Menter er mwyn hel arian ar gyfer achosion da, rhoddir cyfle i'r disgyblion greu hysbyseb radio a fydd yn cael ei darlledu er mwyn hysbysebu be mae pob tim yn ei werthu. Gallwch glywed rhai o'r rhain trwy ymweld â'r wefan www.menter.broddyfi.co.uk

Gallwn ond gobeithio y bydd Radio Bro Ddyfi yn mynd o nerth i nerth yn y flwyddyn sydd i ddod.

It has been 1 year already! From morning songs to get the pupils in the mood to learn to special shows with the Olympics and year 11 end of year special. It has been an eventful year!

Hywel Gwynfryn officially opened the school radio and did an interview with some of the pupils which was broadcast on BBC Wales.

The school radio has been successful in getting pupils to develop their ICT skills in editing their podcasts and ensuring that the sound levels and the music is suitable for broadcast to the entire school at break time and lunchtime.

At first, all shows were recorded before hand. But over the past few months we have been able to have a steady set of producers who are trusted to broadcast live to the school!

Not only is the school radio used during Morning, break and lunchtime, it is also used for recording oral examinations in the Welsh Department and also by the French Department. The radio has also been a part of the school's aim to raise standards in literacy.

The ICT and Media Studies departments are also able to use the school radio to create radio shows for their projects. Samples of some of the shows can be downloaded from the school website: www.radio.broddyfi.co.uk

During activites week where year 9 does a Menter project to raise money for a good cause, one aspect of the work is to create a radio show and a jingle for the school radio to advertise what they are selling. These can be heard by visiting www.menter.broddyfi.co.uk

We can only hope that it will continue to grow from strength to strength in the coming year and only imagine what our pupils will create on this brilliant equipment!










STIWDIO
BOX Player






STIWDIO
BOX Player

**Llysgenhadon Ifanc**

Llongyfarchiadau i James Ingleston a Kieran Jones o flwyddyn 10 am gael eu dewis fel 'Llysgenhadon Ifanc Arian'. Roeddent wedi mynychu diwrnod ymarfer yn Llandrindod. Roedd cyn athletwr Prydain Matt Elias yn siarad yno hefyd er mwyn i'r llysgenhadon ifanc i gyd gael clywed am ei fywyd fel athletwr proffesiynol. Byddent nawr efo'r cyfrifoldeb o helpu gynyddu y niferoedd o blant sydd yn cymryd rhan mewn chwaraeon. Maent eisoes yn helpu hyfforddi tîm merched yr Ysgol bob nos Lun a nos Iau.
Hefyd llongyfarchiadau i Anna Hennighan am ddod yn ail yn y category 'Arweinydd Chwaraeon Ifanc y Flwyddyn' yng Ngwobrwyau Chwaraeon Powys.

**Young Ambassadors**

Congratulations to James Ingleston and Kieran Jones from year 10 for being chosen as 'Silver Young Ambassadors'. They attended a training day in Llandrindod. Former Great Britain athlete Matt Elias was there as a guest speaker and gave a great insight into the life of a professional athlete. They will now have the responsibility of helping to increase the number of children that take part in sports. They also coach the Schools Girls Football team every Monday night and Thursday night.
Congratulations also to Anna Hennighan for coming second in the category 'Young Sports Leader of the Year' in the Powys Sports Awards.

**Cystadleuaeth Pêl-Fasged Gogledd Powys**

Ar y 26ain o Chwefror aeth tîm Pêl-Fasged blwyddyn 7 ac 8 i'r Drenewydd i gystadlu yn nhwrnament Gogledd Powys. Roedd y bechgyn yn amlwg yn nerfus yn y gêm gyntaf ac yn anffodus colli oedd canlyniad y gêm yn erbyn y tîm cartref. Yn yr ail gêm roeddent yn amlwg yn fwy hyderus ac fe reolwyd y gêm yn llwyr gyda'r gêm i gyd yn cael ei chwarae yn hanner Llanidloes o'r cwrt. Ond yn anffodus nid oeddent yn gallu trosglwyddo'r pwysau i bwyntiau a gêm gyfartal oedd y sgôr terfynnol. Yn y gêm olaf yn erbyn y Trallwng roedd y bechgyn yn sgorio efo bron bob siawns ac fe rwystrwyd y Trallwng rhag sgorio ac fe enillwyd y gêm yn rhwydd. Ail oedd y bechgyn yn y tabl, un pwynt tu ôl y tïm buddugol, Ysgol Uwchradd Llanidloes.

Y diwrnod canlynol aeth tîm blwyddyn 10 ac 11 i gystadlu i geisio ennill lle yn y rownd nesaf. Roedd y bechgyn yn chwarae pump gêm i gyd y erbyn Llanidloes, Y Drenewydd, Trallwng, Llanfyllin a Llanfair Caereinion. Roedd y bechgyn yn amlwg o'r chwiban gyntaf yn hyderus ac roeddent yn amlwg o lefel llawer uwch na'r tîmau eraill. Ennillodd y bechgyn bedair o'r pum gêm o ddeg pwynt neu fwy. Dechreuon nhw yn sâl mewn un gêm yn erbyn Llanfair Caereinion lle aethant chwe phwynt tu ôl ond dangoson nhw ymdrech wych i ddod nôl a chael gêm gyfartal. Felly ar ôl ennill pedair ac un gêm gyfartal roedd y bechgyn wedi ennill y gystadleuaeth yn rhwydd ac yn symud ymlaen i rownd gyn-derfynnol Cymru yn Tylorstown.

Cafodd y ddau dîm eu hyfforddi gan Jason Clark o'r chweched dosbarth.

***North Powys Basketball Tournament***

*On the 26th February the year 7 and 8 Basketball team travelled to Newtown. The boys were obviously nervous in the first game against the home town team and unfortunately lost the first game. They were a lot more confident in the second game and totally dominated with most of the game being played in Llanidloes side of the court. Unfortunately they couldn't transfer the pressure into points and came away with a draw. In the last game against Welshpool the boys scored with every opportunity and stopped the opposition from scoring any baskets to win the game comfortably. The boys finished second in the table, just missing out on top spot by one point to the winners Llanidloes.*

*The following day the year 10 and 11 team tried to win and progress to the next round. The boys played five games in total against Llanidloes, Newtown, Welshpool, Llanfyllin and Llanfair Caereinion. The boys were obviously confident from the first whistle and were in truth a level above the opposition teams. The boys won four of the five games by ten points or more. They started poorly against Llanfair Caereinion and fell behind by six points but showed great heart to come back and earn a draw. After four comfortable wins and one draw the boys won the competition easily and progressed to the next round in Tylorstown.*

*Both teams were coached by Jason Clark from the sixth form.*

Ewch gyda'r llif
Get with it

**Rownd gyn-derfynnol Pêl-Fasged Cymru**

Ar Fawrth y $14^{eg}$ aeth bechgyn blwyddyn 10 ac 11 i drio symud ymlaen i'r rownd derfynnol yng Nghaerdydd. Roedd lefel y tîmau yma yn amlwg yn uwch na'r rownd ddiwethaf o'r foment y cyrrheddon nhw y cwrt. Roedd wyth tîm yn cystadlu i gyd, wedi cael eu gwahanu i ddau grŵp o bedwar, roedd y ddau uchaf o'r ddau grŵp yn symud ymlaen i'r rownd nesaf. Yng ngrŵp Bro Ddyfi roedd Ysgol Gyfun Gymraeg Gwyr, Ysgol Penglais ac Ysgol Uwchradd Porthcawl. Roedd y bechgyn yn nerfus iawn yn y gêm gyntaf yn erbyn Gwyr a cholli oedd y canlyniad. Yn ar ail gêm yn erbyn Penglais roedd y gêm yn gyfartal efo llai na thri munud i fynd ond yn anffodus gwnaeth Penglais sgorio cwpl o fasgedi i ennill y gêm. Yn y gêm olaf yn erbyn Porthcawl fe ddangoswyd ymderch amddiffynol anhygoel i rwystro Porthcawl rhag sgorio'r un fasged a gwnaed yn fawr o bob cyfle a gyfyd i ennill y gêm yn rhwydd. Roedd y bechgyn wedi cynrychioli'r ysgol yn wych ac fe ymdrechwyd 100% ym mhob gêm ond yn anffodus trydydd oedd y tîm yn y grŵp gan fethu allan o drwch blewyn rhag cael symud ymlaen i'r rownd derfynnol.

***Welsh Basketball Semi-Final***

*On the $14^{th}$ March the year 10 and 11 team travelled all the way to Tylorstown to try and progress to the all Wales Final in Cardiff. The standard of competition in this tournament was obviously higher than the last round as soon as they arrived on the courts. There were 8 teams competing in total with those being split into two groups of four. The top two from each group would progress to the next round. In Bro Ddyfi'r group were Ysgol Gyfyn Gwyr, Penglais High School and Porthcawl Comprehensive School. The boys were obviously nervous in the first game against Gwyr and unfortunately lost. The second game was equal with less than three minutes to go but Penglais managed to score a couple of baskets to win the game. In the last game the boys put in a great defensive display to stop Porthcawl from scoring and they took their chances on offense to win the game comfortably. The boys represented the school excellently and put in a 100% effort in every game but they finished third in the group and just missed out on progressing to the Final.*








# Blog y Prif Athro

# Head Teacher's Blog

LUMEN NOBIS SIT SCIENTIA

@BRODDYFI

**BLOG Y PRIFATHRO**

**BLOG WYTHNOSOL**
**MR DAFYDD JONES'**
**WEEKLY BLOG**

**WWW.BRODDYFI.CO.UK**



**Defnyddiwch y côd QR yma i gael linc i'r blog**

**Use this QR code to get a direct link to the blog.**

# Adran Addysg Gorfforol / P.E Department

Cafwyd ymwelaid gan ysgol Forest Hill o Lundain y mis yma. Maent yn aml yn ymweld â'r ardal, ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored. Yn y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi manteisio ar y cyfle i chwarae rygbi yn erbyn yr ysgol, ac unwaith eto, roedd y bechgyn yn edrych ymlaen at chwarae eu gêm gamplawn nhw!

Roedd bechgyn blwyddyn 8 a 9 yn barod ar gyfer y dasg, ac roedd y gêm hon yn un gyffrous, gyda rygbi da yn cael ei chwarae. Roedd Rhys Lewis a Meirion Jones Evans yn arweinwyr da iawn, ac yn esiampl i eraill wrth iddynt chwarae yn galed ac yn deg. Yn y pendraw roedd y gêm fel petai yn adlewyrchu gêm derfynol yn stadiwm y mileniwm, gan ei bod yn gêm weddol agos i ddechrau, ond yna Bro Ddyfi yn dangos eu nerth ac yn curo'r gêm o 30 pwynt i 5.

Yn anffodus gohuriwyd twrnament rygbi blwyddyn 7 ac 8 ddwywaith oherwydd y tywydd gwael ac oer a gafwyd. Ond rydym yn edrych ymlaen at dwrnament 7 bob ochr bechgyn blwyddyn 9 a 10, ac yn gobeithio gweld y bechgyn yn llwyddo.

Hefyd mae bechgyn blwyddyn 7, 8 a 9 wedi cael hyfforddiant rygbi gan Dai Higgs, sef swyddog datblygu rygbi'r sir, ac mae hyn bob tro o help mawr i'r bechgyn. Fel ysgol rydym yn gweithio yn agos gyda Dai, ac y flwyddyn yma, mae'r bechgyn canlynol wedi cael eu gwahodd i ymarfer gyda thim rygbi Gogledd Cymru o dan 15, gyda'r gobaith o gael lle yn y garfan terfynol. Meirion Jones Evans, Rhys Lewis, Jay Evans, Dafydd George, Celt Lewis, Jake Hinge ac Alex Davies.

Cafwyd twrnament bêl-rwyd y mis yma, gyda merched blwyddyn 8 a 9 yn teithio i Ysgol Uwchradd Y Trallwng. Chwaraeodd y merched yn dda iawn, ond y tro yma, dim buddugoliaeth.

We had a visit from Ysgol Forest Hill, London this month. They regularly visit the area and take part in outdoor activates. In the last few years, we have taken advantage of a rugby match against the school, and once again the boys were looking forward to play against them.

The year 8 and 9 boys were ready for the task and the game was a very exciting one with good rugby skills being played. Rhys Lewis and Meirion Jones Evans were both good leaders and an example to others on how to play fairly and hard. The game was like it reflected the final game in the Millennium stadium as the game was very close to start off but Bro Ddyfi showed their strength and won 30 -5.

Unfortunately the rugby tournament for year 7 and 8 was postponed twice because of the bad and cold weather we have been having. But we are looking forward to the 7 a side tournament for year 9 and 10 and we are hoping to see the pupils succeed again.

The boys in year 7,8 and 9 are currently being trained by Dai Higgs who is the Rugby Development Officer in the County and has been a big help to the boys. As a school we work very closely with Dai and this year the following pupils have been invited to practice with the North Wales under 15 team with the hope of being entered into the final squad. Meirion Jones Evans, Rhys Lewis, Jay Evans, Dafydd George, Celt Lewis, Jake Hinge and Alex Davies.

There was also a netball competition this month with the year 8 and 9 girls visiting Trallwng High School. The girls played very well, but sadly this time were not succsesssful in winning the match.

# Canlyniadau Eisteddfod





**Dawns unigol hip hop/stryd/disgo Blwyddyn 7 - 9**

Aur Bleddyn **3ydd**

**Dawns Unigol hip hop/stryd/disgo Bl 10 – 13**

Gwawr Jones **1af**

Lliwen Jones **2ail**

**Dawns grŵp hip hop/stryd/disgo Blwyddyn 7 - 9**

Grŵp: Y Dyfodol **2ail**

# DISGO PTA BLWYDDYN 7,8,9

Dair wythnos yn ôl cynhaliwyd disgo i flynyddoedd 7,8 a 9 yn neuadd yr ysgol rhwng 7 a 9. Croesawyd DJ Gwyn Griffiths atom ac fe chwaraeodd amrywiaeth o ganeuon o One Direction i'r Gangnam Style!

Roedd yna ddiodydd a bwyd ar werth a braf oedd gweld y neuadd yn orlawn o liwiau llachar a phawb yn mwynhau eu hunain. Braf iawn hefyd oedd gweld rhai o'r athrawon yn cymryd rhan gyda Miss Haslam, Miss Elfyn, Mr Tomi Rowlands, Mr Ellis a Mr Dafydd Jones yn dawnsio!

Gan Molly, Lianna a Jessica

A few weeks ago there was a disco for year 7.8 and 9 which started at 7.00pm. It was held in the hall of Ysgol Bro Ddyfi. There was a DJ who was called Gwyn Griffiths and some of the music that was playing was gangnam style, One Direction songs, and loads of other good songs. There were loads of different colors of lights in the disco.In the disco the parents were selling drinks, sweets and crisps.

Nearly all the teachers were dancing–here are some people for example Miss Elfyn, Miss Haslam, Mr Ellis, Mr Rowlands and Mr Dafydd Jones.

By Molly, Lianna and Jessica

# GWAITH CELF A CHREFFT YR URDD



Clod mawr i ddisgyblion a ymdrechodd i gystadlu yn y gystadleu-aeth Celf a Chrefft yr Urdd eleni.
Dyma restr o ddisgyblion a gymerodd ran yn y cystadlu.

- Bl 7 - Ffion Davies, Maisie Sandells, Ffion Jones, Ellie Crow ley ac Aur Bleddyn.
- Bl9 - Steffan Williams
- 6ed - Elin Evans, Ilan Jones,

Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol ar eu llwyddiant:

| 4. Gwaith Lluniadu 2D Bl. 7 ac 8 | |
|---|---|
| 1af | Aur Bleddyn, Ysgol Uwchradd Bro Ddyfi |
| 2il | Erwan Powys Jones, Ysgol Uwchradd Bro Ddyfi |

| 38: Gwaith Lluniadu 2D Bl.7,8 a 9 A.A © | |
|---|---|
| 1af | Aron Hyddgen Jones, Ysgol Uwchradd Bro Ddyfi |



| 9: Gwaith Creadigol 2D Bl. 7 ac 8 (Grwp) | |
|---|---|
| 1af | Grwp Ffion, Ysgol Uwchradd Bro Ddyfi |
| 2il | Grwp Aur, Ysgol Uwchradd Bro Ddyfi |
| 3ydd | Grwp, Ysgol Uwchradd Bro Ddyfi |

| 112: Gwehyddu Bl. 7 ac 8 | |
|---|---|
| 1af | Ffion Davies, Ysgol Uwchradd Bro Ddyfi |

| 120: Print Monocrom Bl. 7, 8 a 9 | |
|---|---|
| 1af | Steffan Hywel Williams, Ysgol Uwchradd Bro Ddyfi |



| 128: Cyfres o Brintiau Monocrom Bl. 7, 8 a 9 | |
|---|---|
| 2il | Steffan Hywel Williams, Ysgol Uwchradd Bro Ddyfi |

| 124: Print Lliw Bl. 7, 8 a 9 | |
|---|---|
| 2il | Steffan Hywel Williams, Ysgol Uwchradd Bro Ddyfi |

| 132: Cyfres o Brintiau Lliw Bl. 7, 8, a 9 | |
|---|---|
| 3ydd | Masie Sandells, Ysgol Uwchradd Bro Ddyfi |

# Rhieni yn cynnal a chefnogi eu plant

Afraid dweud bod **pob** rhiant yn dymuno gweld ei blentyn yn llwyddiannus ac hapus, ac fod rhieni'n gweithio'n galed i sicrhau hynny. Rydym ni yma yn Ysgol Bro Ddyfi yn lwcus iawn o'r gefnogaeth mae'r disgyblion yn ei dderbyn gan eu rhieni, ac yn ymfalchio yn y cysylltiadau a'r cydweithio rhyngddom ni a'r rhieni sydd yn digwydd er mwyn sicrhau llwyddiant y bobl ifanc sy'n mynychu'r ysgol. Gwerthfawrogwn yn fawr bod nifer deilwng o rieni wedi mynychu'r gweithdy i rieni yn ddiweddar a arweinwyd gan **Positively MAD** sef cwmni sy'n hyfforddi plant, disgyblion a rhieni am sut i baratoi at arholiadau. Cafwyd sesiwn ddiddorol iawn gyda Jay, yr hyfforddwr yn esbonio sut mae strategaethau fel **mapiau meddwl** a **pegio** yn gallu cael eu defnyddio er mwyn cofio gwybodaeth ac adolygu'n effeithiol.

### Pegio

Dull o gofio pethau'n hwylus a gyflwynwyd yn ystod y gweithdy oedd '**pegio**'. Yma, mae disgyblion yn cysylltu rhywbeth gyda rhywbeth arall sy'n gyfarwydd. Enghraifft o hyn yw y gellid dysgu rhestr o wledydd y byd trwy eu cysylltu gyda chelfi yn yr ystafell wely, neu gyda rhannau o'r corff.

### Mapiau meddwl

Er mwyn dysgu am sut mae **Mapiau Meddwl** yn gweithio a sut i'w creu, dyma fideo all fod o ddefnydd:




http://youtu.be/4wZ5wV5dPZc

Dyma enghraifft sy'n dangos sut i greu map meddwl – gofynnwch i'ch plentyn ei esbonio i chi. Mae disgyblion Blynyddoedd 8-13 wedi derbyn hyfforddiant naill ai eleni (blynyddoedd 8-10) neu ddwy flynedd yn ôl (blynyddoedd 11-13), ac mae mapiau meddwl hefyd yn cael eu cyflwyno a'u dysgu i Blwyddyn 7 fel rhan o'r rhaglen **Dysgwr Smart.**

### Sut i greu a defnyddio map meddwl?



Dyma becyn defnyddiol iawn o strategaethau adolygu a ddefnyddir gan ysgolion yn yr Alban – mae'n werth cymryd cipolwg ohono. https://blogs.glowscotland.org.uk/er/SNHPastoralSupportWebsite/files/2012/01/Study-Skills-02.pdf

### Trefnu'r gwaith a'r adolygu




Hefyd, pwysleisiodd Jay o Positively MAD sawl peth diddorol arall yn ei gyflwyniad gan gynnwys:

**Eistedd fyny'n syth –** mae hyn yn caniatáu i waed ac ocsigen lifo i'r ymennydd, ac mae hyn yn hwyluso'r broses o ddysgu a chofio.

**Mae pobl yn cofio 90% o beth maent yn ei ddysgu i rywun arall**, ac felly mae'n werth gofyn i'ch plentyn ddysgu i chi beth maent wedi ei ddysgu yn ystod y cyfnod adolygu diwethaf.

**Peidio adolygu gyda ffôn symudol a Facebook ar waith** – mae defnyddio ffôn symudol a Facebook fel arfer yn gwastraffu 40 munud. Dylid cadw defnyddio rhain at amser egwyl – hynny yw, adolygu am 45 munud ac yna 15 munud i siarad gyda ffrindiau ar y ffôn neu'r we.

**Mae dysgwyr fel arfer yn gweithio'n fwy effeithiol os ydynt yn adolygu yn y gegin neu'r ystafell fwyta**. Mae angen llonydd oddi wrth frodyr a chwiorydd, ond dylai rhiant fod yn gyfleus i gynnal y disgybl e.e. gofyn cwestiynau am y gwaith, profi i sicrhau ei fod yn dysgu'r gwaith a sicrhau nad yw'r we, yr X-box neu'r PSP a'r ffôn symudol yn cael eu defnyddio pan na ddylai hynny ddigwydd.

**<u>Holiadur Blwyddyn 11 – adolygu ac arholiadau</u>**

Cyn ffug arholiadau Rhagfyr, osbarthwyd holiadur i 15



o ddisgyblion Blwyddyn 11. Roedd rhai o'r atebion i'r holiaduron yn ddiddorol iawn ac yn atgyfnerthu'r uchod wrth drafod **patrymau gweithio gartref** y disgyblion:

Roedd sawl un o'r disgyblion wedi nodi nad oeddynt yn gweithio ddigon caled yn y cartref, ac yn dweud bod **y we, gemau cyfrifiadurol a'r ffôn symudol** yn denu gormod o'u sylw. Mae hyn yn cyd-fynd gyda beth ddywedodd Jay o Positively MAD sef bod budd i ddisgyblion fod yn gweithio dan oruchwyliaeth yn rhywle heblaw'r ystafell wely a lle bynnag arall mae'r pethau hyn ar gael i'w defnyddio heb reolaeth.

Nododd ambell un hefyd eu bod yn treulio **gormod o amser allan gyda'u ffrindiau** ac yr hoffent i'w rhieni eu cadw yn y tŷ am gyfnodau adolygu penodol. Mae cael amser i ymlacio hefyd yn bwysig, ond mae angen cydbwysedd, ac mae'r cyfnod cyn yr arholiadau yn gyfnod pwysig o adolygu.

Roedd mwyafrif y bechgyn a holwyd, a rhai o'r merched yn dweud eu bod **eisiau i'w rhieni eu helpu i greu a rheoli amserlen adolygu**.

Gwelwyd ambell un o'r disgyblion yn dweud bod **brodyr a chwiorydd iau yn tarfu** ar eu gwaith, a bod cael llonydd i adolygu yn gallu bod yn anodd. Awgrymwyd wrth ddisgyblion sy'n byw yn y dref y gallent ddefnyddio llyfrgell y dref ar gyfer adolygu ac mae'r ysgol ar agor am gyfnodau helaeth o'r gwyliau a than tua 6.00 o'r gloch bob nos.

Roedd mwyafrif y bechgyn, a rhai o'r merched wedi dweud eu bod yn dymuno bod eu **rhieni yn eistedd gyda hwy wrth iddynt adolygu**, a'u bod yn eu profi ar yr hyn a ddysgwyd, yn syth ar ddiwedd y sesiwn adolygu, ac o fewn 2-3 diwrnod i weld os oeddynt yn dal i gofio'r wybodaeth.

Dywedodd sawl un hefyd eu bod yn dymuno bod eu rhieni yn trafod gyda hwy y broses o gwblhau cyn bapurau arholiad; buasai hyn yn atgyfnerthu beth mae'r disgyblion wedi ei ddysgu yn yr ysgol.

**Beth mae'r athrawon wedi ei wneud am ganlyniadau'r holiadur?**

Adroddwyd yn ôl ar ganlyniadau'r holiadur i athrawon yr ysgol hefyd, a gwelwyd criw o athrawon yn rhannu gwybodaeth mewn sesiwn rhannu arfer dda am sut maent yn paratoi disgyblion ar gyfer arholiadau e.e. adnabod a rhannu nodweddion atebion mathau gwahanol o gwestiynau, ymdopi â geirfa annisgwyl yn yr arholiad, a datblygu dealltwriaeth disgyblion o eiriau gorchymyn. Rhannwyd hefyd wybodaeth am safle gwe Quizlet (http://quizlet.com/) sef safle gwe lle mae'n bosib creu a chwarae cwisiau adolygu. Mae'r disgyblion sydd eisoes wedi mentro defnyddio'r safle gwe hwn wedi mwynhau'r gwaith a hefyd yn dweud ei fod o gymorth mawr wrth adolygu. Anogir pob disgybl felly i roi tro arni.

**Yn olaf…**

Yn nogfen yr OECD am brofion PISA ar sut gall rhieni helpu eu plant i lwyddo yn yr ysgol (http://www.pisa.oecd.org/dataoecd/4/1/49012097.pdf), nodir bod disgyblion yn fwy tebygol o lwyddo mewn arholiadau pan yn 15 mlwydd oed (sef TGAU yng Nghymru), ac yn debygol o fod â sgiliau darllen gwell os yw'r canlynol yn digwydd:

- Rhieni yn darllen gyda phlant gan ddechrau pan fyddant yn blant ifanc iawn
- Rhieni yn trafod llyfrau, ffilmiau a rhaglenni teledu gyda'u plant
- Rhieni yn trafod beth a ddysgwyd yn yr ysgol yn ddyddiol
- Y teulu yn bwyta prydiau bwyd gyda'i gilydd o gwmpas bwrdd
- Y rhieni a'r plant yn sgwrsio ac yn trafod materion cymdeithasol a gwleidyddol

Mae'r cysylltiad agos sydd yn bodoli rhwng yr ysgol a'r cartref yn rhywbeth yr ydym yn ymfalchïo ynddo fel ysgol. Cofiwch bod croeso i chi fel rhiant gysylltu gyda ni ar unrhyw adeg i drafod cynnydd eich plentyn, a hefyd i drafod sut y gellid paratoi cynhaliaeth a chefnogaeth bellach fydd yn arwain at ei l/lwyddiant. **Ein nod ni yw sicrhau ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau llwyddiant eich plentyn a bod pob un yn yr ysgol yn llwyddo i'w lawn botensial.**

# Parents supporting their children

Needless to say, **all** parents wish to see their child being happy and successful, and all parents work hard for this to happen. At Ysgol Bro Ddyfi, we are very lucky of the support our pupils receive from their parents, and we are proud of the co-operation that happens between the school and the home so that we can work together to ensure that all pupils have the opportunities to fulfil their true potential.

PositivelyMAD
inspiring empowered learning

We appreciate very much that a significant group of parents attend the workshop led by Positively MAD recently at the school. This is the second time that the workshop has taken place over the last two years, and it is a very worth-while and interesting event. Jay, the Positively MAD trainer who works with learners, parents and teachers across the country to explain revision planning, strategies and encourage motivation when preparing for examinations explained to the attendees how strategies such as **mind-mapping** and **pegging** may be used effectively to memorise information, and what are the characteristics of effective revision.

**Pegging** is a method of memorising things very easily. This method requires learners to connect something they wish to learn with a familiar object. An example of this is that countries of the world may be learnt by connecting them with furniture in the bedroom, or with different parts of the body.




**Mind maps:** To learn more about how **'mind maps'** work, and how they may be created, this video is very informative: http://youtu.be/4wZ5wV5dPZc

This is an example of a mind-map which is focused on creating mind-maps – ask your child for an explanation. Years 8-13 have received Postively MAD training either this year (years 8-10) or two years ago (years 11-13), and mind-maps are also taught to year 7 as part of the Smart Learner course.

**How to create and use mind-maps?**



This is a very useful information pack about revision strategies which used by schools in Scotland – it is worth taking a look at it. https://blogs.glowscotland.org.uk/er/SNHPastoralSupportWebsite/files/2012/01/Study-Skills-02.pdf




## Organising the work and revision

Also, Jay from Positively MAD also emphaised several other interesting things in his workshop including:

**Sitting up straight –** this enables blood and oxygen to flow to the brain, and this makes the learning and memorising process to be much easier for us.

**People remember 90% of what we teach to other people**, and it is therefore worthwhile to ask your son/daughter to teach you what they have learnt during the previous revising session.

**Don't revise when your mobile-phone and Facebook are switched on** – trying to revise and use these means that you are wasting 40 minutes. It is much better use of time to revise for 45

minutes, and then to switch the mobile phone and Facebook on during the following break – this should be 15 minutes in length



**Learners usually work more effectively if they are revising in the kitchen or dining room.** Younger brothers and sisters should leave the learner alone when he/she is revising, but a parent should be nearby give support e.g. ask questions about the work, and to make sure the internet, X-box, PSP and mobile-phone are being used when this shouldn't happen.

**<u>Year 11 questionnaire – revision and examinations</u>**

Before the mock-examinations in December, a questionnaire of 15 year 11 pupils was conducted. Some of the answers to the questionnaire were very interesting and support what has been mentioned already when discussing how learners **work at home**:

Several pupils noted that they don't work hard enough at home, and they said the **internet, computer games and mobile phones** attract their attention away from the work. This confirms what Jay from Positively MAD was saying when he noted that it is beneficial for pupils to work under supervision, and not in the bedroom or wherever else they work without a parental eye being kept on what is happening.

Some pupils noted that they **spend too much time with friends** and that they wish their parents would keep them at home for specific revision periods. It is important to have time to relax, but balance is needed, and the time before an examination is an important time for revision.

Most of the boys who were asked, and some of the girls said they wanted their **parents to help them create and manage a revision timetable.**

Some pupils said that **younger brothers and sisters** are disrupting their work, and having peace and quiet to revise is difficult. It was suggested to the pupils who live in town that the town library could be used for revision, and that the school is open until about 6.00 o'clock in the evening and for the majority of the holidays.

Most of the boys and some girls said they would like if their **parents would sit with them when they're revising**, and the parents then test what has been learnt at the end of the session, and within 2-3 days to see what information has been retained. Several also said they wished for their parents to discuss with them the process of completing past-papers; this would reinforce what the pupils have learnt in school.

**What did the teachers do about the results of the questionnaire?**

The results of the questionnaire were also presented to the teachers, and a group of teachers shared their best-practice regarding examination-preparation e.g. recognise the type of answer needed when considering different types of questions, coping with unexpected terminology in the examination, and developing an understanding of command words. Information was also shared about the Quizlet website (http://quizlet.com/) which is a website where learners can create and play revision quizzes. Pupils who have already attempted to use this website have enjoyed the work, and they are saying it is a significant help with their revision. All pupils are therefore encouraged to give it a go.

**Finally…**

In a document produced by the OECD about PISA tests and how parents can help their children succeed in school (http://www.pisa.oecd.org/dataoecd/4/1/49012097.pdf), it is noted that pupils are more likely to succeed in examinations when they're 15 years old (GCSEs in Wales), and are more likely to have superior reading skills if the following is happening:

- Parents reading with children, starting at a very young age
- Parents discussing books, films and television programmes with their children
- Parents having a daily discussion about what has been learnt at school on the previous day
- Families eating family meals together around a table
- Children and parents chatting and discussing current political and social issues

The close connection which exists between the school and the home is something we, as a school are proud of. Please remember that each and every parent can contact us at any time to discuss your child's progress, and also to discuss how more support may be provided to ensure future success. **Our aim is to work together to ensure the success of your son/daughter and to ensure that every child in the school has the opportunity to fulfil their potential.**

Follow

dilynwch ni ar twitter

follow us on twitter

**Mae Ysgol Bro Ddyfi nawr ar twitter. Os hoffech wybod y newyddion diweddaraf o Ysgol Bro Ddyfi dilynwch ni ar twitter.**

*Ysgol Bro Ddyfi is now on twitter. If you would like to be informed of the latest news from Ysgol Bro Ddyfi follow us on twitter.*

LUMEN NOBIS SIT SCIENTIA

**twitter.com/broddyfi**

**@BroDdyfi**



## Y Chweched Dosbarth

Os oes diddordeb gyda chi mewn parhau â'ch astudiaethau yn y Chweched Dosbarth Ysgol Bro Ddyfi, mae'n bosibl lawrlwytho'r prosbectws oddi ar ein gwefan:
**www.broddyfi.co.uk**

*If you are interested in continuing your studies in the Sixth Form here at Ysgol Bro Ddyfi, you can download the prospectus from our website.*
***www.broddyfi.co.uk***






# Llythrennedd

## Arholiadau Llythrennedd CA3

Yn ystod y misoedd nesaf, yn ogystal â'u harholiadau arferol, bydd disgyblion Blwyddyn 7, 8 a 9 yn sefyll arholiadau Llythrennedd a Rhif. Mae'r arholiadau hyn yn statudol am y tro cyntaf eleni ac ein bwriad ni fel ysgol ydy paratoi'r disgyblion yn drwyadl at yr arholiadau hyn. Bydd yr arholiad Llythrennedd yn para awr.

## Darllen

Mae'n hanfodol bwysig bod pob disgybl yn gwneud defnydd doeth o'u hamser hamdden. Mae'r llyfrgell yn orlawn o adnoddau darllen addysgiadol a buddiol y gall ein disgyblion fanteisio arnynt yn rheolaidd. Fel rhan o'u gwersi Cymraeg a Saesneg, bydd disgyblion CA3 yn ymweld â'r llyfrgell unwaith y pythefnos. Erfyniaf arnoch chi fel rhieni i sicrhau bod eich plentyn yn penodi o leiaf hanner awr y diwrnod i ddarllen - boed yn llyfr llyfrgell, yn bapur newydd neu'n gylchgrawn addas. Gall hanner awr y dydd wneud byd o wahaniaeth. Am fwy o wybodaeth, gweler yr adran Llythrennedd ar wefan yr ysgol.

## Llyfryn Terminoleg CA3

Daeth pob adran yr ysgol at ei gilydd yn ddiweddar i greu llyfryn terminoleg ar gyfer disgyblion CA3. Bydd y llyfrynnau hyn yn cael eu dosbarthu'n fuan. Mae'n rheidrwydd i bob disgybl ym mlwyddyn 7,8 a 9 sicrhau bod y llyfrynnau hyn ganddynt bob diwrnod ac yn eu defnyddio yn rheolaidd. Bydd disgyblion Bl. 7 ac 8 yn derbyn profion sillafu wythnosol yn eu gwersi Llythrennedd yn seiliedig ar y termau hyn.

## **KS3 Literacy Exams**

During the next few months, along with their usual examinations, year 7,8 & 9 students will be sitting Literacy and Numeracy exams. These examinations are statutory from this year onwards and it is our intention as a school to prepare the students thoroughly. The literacy exam will last 1 hour.

## **Reading**

It is essential that every pupil makes useful use of their spare time. The school library is full of educational and beneficial reading material for our students to take full advantage. As part of their Welsh and English lessons, pupils will visit the library every fortnight. I ask you as parents/guardians to ensure that each pupil allocates at least half an hour each evening reading – a library book, a newspaper or a suitable magazine. For more information regarding reading at Bro Ddyfi, visit the Literacy department on the school website.

## **KS3 Terminology Booklet**

Every department at the school came together recently to produce a terminology booklet for year 7, 8 & 9 students. These booklets will be dispatched shortly. It is essential that every pupils carries these booklets with them at all times and use them regularly. Year 7,8 & 9 pupils will receive weekly spelling tests based on these terms.

# Gweld Sêr 2013 / Seeing Stars



Bronwen Jones, Dafydd George, Tudur Jones, Celt Lewis – Dim Plant!!

Ar nos Fercher Chwefror 27ain cynhaliwyd noson wobrwyo Gweld Sêr am y tro cyntaf. Heledd Davies a Guto Pugh oedd yn cyflwyno'r noson a gynhaliwyd tair noson ar ôl yr Oscars. Cafwyd premiere tair ffilm fer a wnaed gan flwyddyn 9 yn ystod yr wythnos weithgareddau.

Arolygwr sydd ag agenda ei hun yw sail Bydd Mawr y Rhai Bychain, sy'n ffilm gomedi er ei bod yn digwydd yn ystod arolwg ysgol. Ffilm fud yw Dim Plant!! Sy'n defnyddio'r syniad o ddiwrnod Hyfforddiant Mewn Swydd athrawon fel dechreubwynt. Mae Six Weeks yn dechrau gyda chanu'r gloch i ddynodi dechrau'r gwyliau Haf. Gwobrwywyd Ifan Rhys Jones fel Prif Actor am y ffilm Bydd Mawr y Rhai Bychain, a Sasha-Mae Howard fel y Brif Actores am Six Weeks.

Ennillodd Alan Glyn o Six Weeks am y Perfformiad Cynorthwyol Gorau, a daeth Mali Tomos i'r brig am ei phoster. Jack Duggan aeth â'r wobr am Gyfraniad Technegol allweddol. Fe benderfynodd y Panel, oedd yn cynnwys Mrs Haf ap Robert a Mr Llifon Ellis yn ogystal â Craig Duggan o'r BBC, mai Six Weeks oedd yn mynd â'r wobr am Ffilm Orau, ond Dim Plant!! ennillodd Barn y Bobl neu wobr y gynulleidfa. Ar yr un noson cafwyd Blooper Reel o gamgymeriadau, ac hefyd dangoswyd y ffilm fer Nos Da, a wnaed gan y Chweched Dosbarth. Mae'r ffilmiau yma i gyd i'w gweld ar wefan yr ysgol.

On Wednesday 27th February 2013 Ysgol Bro Ddyfi held the very first Seeing Stars Awards Night, presented by Heledd Davies and Guto Pugh of the sixth form.

Taking centre stage were three short films made by year 9 in activities week. The Best Film Award decided by the Panel went to Six Weeks, while the Audience Award on the night went to Dim Plant!! in an extremely close fight between all three films.
The award for Best Actress went to Sasha-Mae Howard in a very tight contest with Georgia Clarke, Bronwen Jones and Lliwedd Jones.

In the Best Actor category Ifan Rhys Jones was victorious against Alex Davies and Tudur Jones, while Alan Glyn won the Best Supporting Actor against Biddy Purser, Bethan Roberts and Reuben Kohler. The Key Technical Contribution Award went to Jack Duggan for Six Weeks, while Mali Tomos won an award for her marvellous Poster.

We hope to host another event after another round of films. This is the place to be for Seeing Stars of the future. Links to all the films are available on the school website.



Georgia Clarke / Sasha-Mae Howard – Six Weeks



Lliwedd Jones – Bydd Mawr y Rhai Bychain



**YSGOL BRO DDYFI**

Tel: (01654 70 2012)
Ffacs: (01654 70 2994)
E-bost: office@broddyfi-hs.powys.sch.uk
Gwefan: www.broddyfi.co.uk

PENNAETH: Mr D. M. B. Jones. B.A.